# Polisi Dyrannu Tai Pobl Hŷn Dynodedig

**Mae'r Polisi Dyrannu Cyffredin yn berthnasol i bawb sydd eisiau gwneud cais am dai cymdeithasol.**

**Darllenwch y Polisi Dyrannu Cyffredin cyn darllen y polisi hwn.**

**Mae hwn yn bolisi ychwanegol sy'n cynnwys pobl 55 oed neu'n hŷn sydd am wneud cais am:**

- **gynlluniau tai gwarchod**
- **tai gofal ychwanegol**
- **rhai byngalos gwledig**

**Nid yw fflatiau ymddeol ar brydles yn berthnasol i'r polisi hwn.**

## Gwybodaeth i bobl hŷn sydd eisiau gwneud cais am dai cymdeithasol

Mae'n rhaid i **bawb** sydd eisiau tai cymdeithasol wneud cais i'r Gofrestr Tai Cyffredin. Mae'r Polisi Dyrannu Cyffredin yn esbonio'r rheolau ar gyfer gwneud cais i'r Gofrestr hon a sut y bydd yr eiddo sydd ar gael yn cael eu dyrannu.

Gall pobl 55 oed neu'n hŷn hefyd wneud cais i:

- Y Gofrestr Tai Pobl Hŷn Dynodedig, os ydyn nhw am gael tai gwarchod, tai gofal ychwanegol neu fyngalo gwledig. Mae'r polisi hwn yn esbonio'r rheolau ychwanegol ar gyfer y Gofrestr hon.
- Y Gofrestr Tai Hygyrch, os oes angen eiddo wedi'i addasu. Mae'r rheolau ychwanegol ar gyfer y Gofrestr hon yn cael eu hesbonio yn y Polisi Dyrannu Tai Hygyrch.

## Sut wnaethon ni benderfynu beth i'w roi yn y polisi hwn

Dyma'r pethau y gwnaethon ni feddwl amdanyn nhw pan ysgrifennon ni'r polisi hwn:

- **Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn,** sy'n cynnwys:
  - *bod yn annibynnol*
  - *cymryd rhan ym mywyd y gymuned*
  - *cael y gofal cywir*
  - *cael y bywyd y maen nhw ei eisiau*
  - *cael eu trin gydag urddas a pharch*

- **Deddf Cydraddoldeb 2010.** Mae'r Ddeddf yn dweud:
  - mae'n rhaid i ni drin pobl yn deg.
  - mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr y gall pobl anabl ddefnyddio ein gwasanaethau. Gallai hyn feddwl bod angen i ni wneud pethau'n wahanol i bobl anabl.
  - mae'n rhaid i ni gymryd camau fel bod pobl anabl a gweddill y gymuned yn cael cyfle cyfartal mewn bywyd ac yn gallu dod ymlaen gyda'n gilydd

- Efallai na fydd angen tai hygyrch ar bobl hŷn. Ond bydd angen y tai hyn ar lawer o bobl hŷn. Felly mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau** yn bwysig. Mae hwn yn dweud bod gan bobl anabl yr hawl i fyw yn annibynnol a bod yn rhan o'r gymuned.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu **Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru.** Mae'n seiliedig ar Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. Dyma restr o hawliau pobl hŷn:
  - Mae gen i hawl i fod yn fi fy hun
  - Mae gen i hawl i gael fy ngwerthfawrogi
  - Mae gen i ewyllys rhydd a'r hawl i wneud penderfyniadau am fy mywyd
  - Mae gen i hawl i benderfynu ble rwyf yn byw, sut yr wyf yn byw a phwy yr wyf yn byw gyda nhw
  - Mae gen i hawl i weithio, datblygu, cymryd rhan a chyfrannu
  - Mae gen i hawl i ddiogelwch, diogeledd a chyfiawnder

- Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â **Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru: Byw'n Hirach, Heneiddio'n Dda (2013-2023).** Bydd ein polisi:

  - yn datblygu cymunedau sy'n gyfeillgar i oed; mae'r rhain yn gymunedau sydd yn lleoedd da i bobl hŷn i fyw.
  - helpu oedolion iau i ddechrau meddwl am yr hyn y bydd angen arnyn nhw pan fyddan nhw'n hŷn.

- Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag egwyddorion y GIG ar **Ofal Iechyd Doeth**. Y rhain yw:
  - Mae angen i'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol weithio gyda'i gilydd yn gyfartal fel y gall pobl fod yn iach ac yn hapus.
  - Cael gwybod pwy sydd â'r anghenion iechyd mwyaf, a'u helpu nhw yn gyntaf.
  - Peidiwch â gwneud gormod i bobl. Peidiwch â gwneud rhy ychydig i bobl. Peidiwch â gwneud pethau sy'n gwneud pobl yn waeth eu byd.
  - Cael gwybod beth sy'n gweithio'n dda, ac yna yn ei wneud.

- Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â **Strategaeth Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn (Gofal a Llesiant) 2014** Cyngor Sir Ceredigion, yn enwedig:
  - Gwella gwybodaeth a chyngor fel ei bod yn haws i bobl hŷn helpu eu hunain a gwneud dewisiadau am eu gofal a'u cymorth.
  - Gwneud yn siŵr y gall pobl hŷn gael asesiadau da o'r cymorth y gallai fod ei angen arnyn nhw. Mae asesiad da yn digwydd ar yr adeg iawn, nid yw'n gofyn mwy o gwestiynau nag sydd eu hangen ac mae'n edrych ar fywyd cyfan y person.
  - Rhoi mwy o ddewis o wasanaethau fel tele-ofal a thele-iechyd.
  - Rhoi mwy o ddewis o dai a mwy o dai â chymorth (fel 'tai gofal ychwanegol'), fel bod angen i lai o bobl fynd i ofal preswyl neu ysbyty.
  - Gweithio gyda Chymdeithasau Tai a datblygwyr tai i wneud yn siŵr:
    - bod digon o dai yng Ngheredigion sy'n addas ar gyfer pobl hŷn
    - bod dewis o fathau o denantiaethau.

- **Tai i Bawb: Strategaeth Dai Leol ar gyfer Ceredigion.** Mae hyn yn dweud ein bod am gael y gwasanaethau a'r tai iawn ar draws Ceredigion i bobl gael byw yn annibynnol. Mae hwn yn waith i bawb yng Nghyngor Sir Ceredigion.

## Beth rydyn ni am i'r polisi wneud

Rydyn ni am wneud yn siŵr bod pobl hŷn yn cael y tai sydd eu hangen arnyn nhw i fod yn:

- iach
- actif
- annibynnol

Weithiau mae mynd yn hŷn yn arwain at anghenion iechyd a chymorth. Felly efallai bydd angen tai hygyrch ar bobl hŷn, neu gymorth i fyw gartref. Bydd ein polisi yn helpu hyn i ddigwydd.

Mae ein polisi hefyd yn helpu i gyflawni nodau ein Polisi Dyrannu Cyffredin. Rydyn ni am:

- ddefnyddio tai cymdeithasol i wneud cymunedau yn gryfach
- gwneud yn siŵr bod eiddo yn mynd i'r bobl sydd angen ein cymorth fwyaf
- gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod ble maen nhw'n sefyll

### Defnyddio tai cymdeithasol i wneud cymunedau yn gryfach

Bydd ein polisi Dyrannu Tai Pobl Hŷn Dynodedig yn gwneud cymunedau'n gryfach trwy:

- wneud yn siŵr bod pobl sy'n byw yng Ngheredigion neu'n agos iawn ati yn fwy tebygol o gael tai.
- helpu pobl i aros yn annibynnol ac yn rhan o'u cymuned drwy eu helpu i aros yn agos at eu rhwydweithiau cymorth.
- gwneud yn siŵr bod pobl ym Mand A, B ac C i gyd yn cael rhan o dai cymdeithasol. *Mae'r Polisi Dyrannu Cyffredin yn esbonio'r system Bandiau*. Rydyn ni am i:
  - Fand A gael 40% o'r tai
  - Band B gael 30% o'r tai
  - Band C gael 30% o'r tai
- cael gwared ar y rheolau am enillion a chynilion pan fydd person hŷn yn gwneud cais am dai Pobl Hŷn Dynodedig.

## Gwneud yn siŵr bod cartrefi yn mynd i'r bobl sydd angen ein cymorth fwyaf

Mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n helpu'r bobl sydd angen ein cymorth fwyaf. Byddwn ni'n:

- gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio'r rheolau yn Neddf Tai (Cymru) 2014.
- gwneud beth allwn ni i ddatrys problemau gyda thai rhent preifat o ansawdd gwael.
- gwneud yn siŵr bod pobl rhwng 55 ac oedran pensiwn y wladwriaeth yn gallu symud i gartrefi llai, fel nad oes rhaid iddyn nhw dalu'r dreth ystafell wely.
- gweithio gyda darparwyr tai i wneud yn siŵr bod pobl dim ond yn byw mewn tai hygyrch neu dai â chymorth os oes angen y tai hynny arnyn nhw.

## Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod ble maen nhw'n sefyll

Rydyn ni am i bobl wybod ble maen nhw'n sefyll gyda ni. Rydyn ni am iddyn nhw wybod:

- os ydyn nhw'n debygol o gael tai cymdeithasol hygyrch.
- pa mor hir y bydd yn rhaid iddyn nhw aros.
- sut byddwn ni'n penderfynu pwy sy'n cael cynnig eiddo sydd ar gael.
- Beth rydyn ni'n disgwyl ganddyn nhw, er enghraifft, sut rydyn ni'n disgwyl iddyn nhw ymddwyn.

Byddwn ni:

- yn defnyddio system bandiau, nid system pwyntiau.
- yn cymryd i ystyriaeth pa mor hir y mae rhywun wedi bod yn aros, ond hefyd yn gwneud yn siŵr bod pobl ag angen brys yn gallu cael ein help.
- yn peidio â gosod cartref i unrhyw un sy'n ymddwyn yn wael drwy'r amser.

## Gwneud cais dan y polisi hwn

Rhaid i chi fod:

- dros 55 oed **neu**
- yn byw gyda rhywun dros 55 oed

*Efallai bydd pobl iau yn gallu cael tai gwarchod, tai â chymorth neu dai â gofal ychwanegol, ond nid yw'r polisi hwn yn berthnasol iddyn nhw.*

Os ydych chi dros 55 ac ar y Gofrestr Tai Cyffredin, **rhaid i chi wneud cais** os ydych chi hefyd am fynd ar y Gofrestr Tai Pobl Hŷn Dynodedig. Ni fydd yn digwydd yn awtomatig.

Os ydych chi eisoes ar y Gofrestr Tai Cyffredin pan fyddwch yn cael eich pen-blwydd yn 55, bydd y Tîm Cofrestrau Tai yn cysylltu â chi ac yn gofyn a ydych chi am wneud cais am y Gofrestr Tai Pobl Hŷn Dynodedig.

Os ydych chi am wneud cais am dai gofal ychwanegol, bydd angen i chi lenwi ffurflen sy'n dweud pam bod angen tai gofal ychwanegol arnoch chi.

Pan fyddwch chi'n gwneud cais, gallwch chi ddewis

- cynifer neu gyn lleied o gynlluniau ag yr ydych yn dymuno
- cynifer o ardaloedd o fyngalos gwledig ag yr ydych yn dymuno

Mae hyn yn ein helpu i ddyrannu tai. Mae hefyd yn golygu y gallwn ni roi syniad realistig i chi o faint o amser efallai y bydd yn rhaid i chi aros.

Gallai cynlluniau tai gwarchod a chynlluniau tai gofal ychwanegol gael rheolau am anifeiliaid anwes. *Nid yw cŵn cymorth yn cael eu cynnwys fel anifeiliaid anwes*. Gallai fod rheolau eraill mewn cynlluniau hefyd.

Cyn i chi ddewis cynllun, rhaid i chi sicrhau eich bod chi'n hapus â'i reolau. Mae hyn oherwydd y byddwn ni'n eich rhoi ym Mand F os byddwch chi'n gwrthod cynnig rhesymol gennym ni ar gyfer cynllun yr ydych chi wedi'i ddewis. Os ydych chi ym Mand F ni fyddwn ni'n rhoi cynnig arall i chi.

## Cais i'r Cofrestrau

**Rydyn ni'n defnyddio bandiau i'n helpu ni i ddyrannu cartrefi.**
**Darllenwch y Polisi Dyrannu Cyffredin i gael gwybod am y system bandiau.**
**Mae ein system bandiau yn edrych ar eich:**

- **angen am dai**
- **cysylltiad lleol**

**Mae gennym ni hefyd Fand F ar gyfer pobl sy'n aros i gael eu rhoi mewn band arall. Er enghraifft, gallen nhw fod mewn ôl-ddyledion rhent, neu efallai ein bod ni'n aros i weld os bydd eu landlord preifat yn gwneud eu cartref presennol yn ddiogel ac yn addas i fyw ynddo.**

Pan fyddwch chi'n gwneud cais i'r Gofrestr Tai Cyffredin, byddwn ni'n dweud wrthych chi ym mha fand ydych chi.

Pan fyddwch chi'n gwneud cais i'r Gofrestr Tai Pobl Hŷn, byddwn yn gwirio:

- bod o leiaf un aelod o'ch cartref yn 55 oed neu'n hŷn
- ni fyddai eich cartref yn orlawn. Mae hyn yn golygu y byddwn ni'n gweithio allan faint o ystafelloedd gwely sydd eu hangen ar eich cartref. Yna, rydyn ni'n gwirio a oes gennym ni unrhyw dai Pobl Hŷn Dynodedig sy'n ddigon mawr.
- a ydych chi am gael tai gwarchod, tai gofal ychwanegol neu fyngalo gwledig

## Dyrannu tai i bobl ar y Gofrestr Tai Pobl Hŷn Dynodedig

Pan fydd eiddo ar gael, bydd y Tîm Cofrestrau Tai yn ei ddyrannu i Fand A, Band B neu Fand C.

Byddwn ni'n edrych ar y Gofrestr Tai Pobl Hŷn Dynodedig ar gyfer pobl:

- sydd yn y band hwnnw
- sydd wedi gwneud cais am y cynllun neu'r math o dai hwnnw

Byddwn ni'n cymryd i ystyriaeth pa mor hir mae pobl wedi bod ar y Gofrestr Tai Pobl Hŷn Dynodedig.

## A yw'r polisi hwn yn gweithio?

Bob 3 mis, byddwn ni'n gwirio bod y polisi hwn yn gweithio.